**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr CEINEWYDD a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 20 Hydref 2022**

**Cynghorwyr Sir Ceredigion:** Keith Henson (Cadeirydd), Endaf Edwards a Gethin Davies

**Swyddogion:** Gerwyn Jones, Owen Morgan, Katy Spain, Nia Jones a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr / Rhanddeiliaid:** Jennifer Davies, Mike Masters, Andy Evans, Crawford McLeary, Damien Lewis, Patricia Lewis, Rees-Tom Jones, Chris Seal, Brett Stones a Jane O'Connor

(6:25pm – 7:35pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ymddiheurodd Mr Jonathan Evans a Mr Winston Evans am nad oedd modd iddynt fod yn y cyfarfod.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2022**
   Cytunwyd i gadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2022 yn gywir.

   **Materion yn Codi**
   Cofnod 3 - Gofynnwyd am eglurhad ynghylch hwn am ei fod yn dweud fod modd parcio cychod dros y gaeaf ar dop maes parcio'r Paragon. Cadarnhawyd y dylai cychod yr angorfeydd gael eu parcio ym maes parcio Ffordd yr Eglwys dros y gaeaf. Roedd perchnogion y cychod wedi derbyn hyn a dywedwyd ei bod yn llawer haws cludo'r cychod i faes parcio Ffordd yr Eglwys am nad oedd angen mynd yn groes i'r system traffig un ffordd wrth eu cludo.

   Dywedodd y Cynghorydd Vaux fod sawl trelar cychod wedi'u gadael ar dop maes parcio Ffordd yr Eglwys dros yr haf. Mewn ymateb, dywedwyd y ceisiwyd cael gafael ar berchnogion y trelars ac os nad oedden nhw'n cael eu symud, y rhoddwyd rhybudd parcio arnyn nhw i'w symud.

   Cofnod 4 - Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fyddai cynnydd yn y ffïoedd angori ar gyfer 2023/24. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r taliadau hyn yn cael eu hystyried a'u craffu yn y cyfarfodydd nesaf i bennu'r gyllideb ym mis Ionawr/Chwefror 2022.

3 **Diweddariad gan y Gwasanaethau Harbyrau**
   Rhoddodd yr Harbwrfeistr y diweddaraf am y gwasanaeth, fel y rhoddwyd yn y rhifyn diweddar o Dyfroedd Tawel 3/ *Calm Waters 3*. Tynnwyd sylw at y canlynol o ran Harbwr Ceinewydd:-
   - Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion – cytunwyd y byddai copi o'r polisi yn cael ei gylchredeg i bob Aelod gyda'r cofnodion.
   - Cynllun Rheoli Gwastraff y Porthladd
   - Carthu
   - Llithrfa

- Iechyd a Diogelwch – Cyfrifoldeb Pawb
- Glanio
- Adborth

Nodwyd y byddai’r adolygiad o’r Polisi Rheoli Harbyrau yn digwydd ac y cynhelir proses ymgynghori a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid. Wedyn bydd y Polisi yn mynd trwy proses graffu/cymeradwyo wleidyddol.

CYTUNWYD y byddai’r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Diolchodd yr aelodau i Reolwr yr Harbwr am y diweddariad.

## 4 Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr

- **Parcio – Clwb y Cychod Hir**
  Roedd Mrs Jane O’ Connor ar ran Clwb y Cychod Hir yng Ngheinewydd wedi gofyn am le i barcio un cwch ar y pier neu ar bwys y pier. Roedd hyn yn sgil y goblygiadau iechyd a diogelwch o gludo’r cwch drwy’r dref i’w lansio, yn enwedig gyda defnyddwyr ifanc. Dywedwyd bod y clwb wedi ei sefydlu yn 2019, bod ganddo lawer o aelodau a’i fod yn ddiweddar wedi derbyn grant i brynu cwch hir arall. Dywedwyd y dylai ysgrifennu at Clic gyda'r cais hwn er mwyn i swyddogion y gwasanaeth Ystadau a Rheolwr yr Harbwr ei ystyried. Roedd pob aelod a oedd yn bresennol yn cefnogi'r cais hwn; nodwyd bod y tîm cychod hir blaenorol wedi cael llefydd parcio ar gyfer pedwar cwch ar y pier yn y gorffennol.  Ni fyddai'r Polisi Rheoli Harbyrau yn rhoi ystyriaeth i gymaint â hyn o fanylder.

- **Creu sianel**
  Gwnaed cais am i sianel gael ei chloddio wrth wneud y gwaith carthu er mwyn annog dŵr i gylchredeg. Byddai'r cais hwn yn cael ei ystyried.

- **Arwyddion Rhybudd newydd**
  Gofynnir i’r adran Twristiaeth am arwyddion newydd i rybuddio am gerrig yn cwympo wrth Draeth Gwyn.

- **Symud Dingis**
  Gwnaed cais pellach gan y Cynghorydd Vaux ar i berchnogion symud y dingis yng nghefn y prif draeth, a bod y drysni yn cael ei waredu.  Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr yr Harbwr nad oedd wedi cyflwyno trwyddedau ar gyfer y dingis hyn, a chynigiodd ei fod yn cwrdd â'r Cynghorydd Vaux ar y safle i fwrw golwg ar y materion ac ystyried gwaith posib i gael gwared ar y mieri a’r drysni.

- **Biniau Glas Mawr**
  Adroddwyd bod y biniau mawr glas wedi cael eu symud o'r prif draeth erbyn hyn, a bod biniau eraill a lleoliadau eraill yn cael eu hystyried erbyn y tymor

nesaf. Nodwyd, oherwydd eu maint a'u siâp, y byddai rhai bocsys tecawe yn llenwi'r biniau sbwriel yn gyflym iawn. Bydd busnesau lleol yn cael eu hannog i ystyried materion o'r fath, gan gynnwys darparu eu biniau eu hunain ar gyfer gwastraff a gynhyrchir gan eu busnesau, a/neu ddefnyddio cynwysyddion gwahanol.

- **Lansio Cychod**
  Cynigiwyd y byddai'r cychod yn cael eu rhoi mewn gyda chraen ar 24 Ebrill 2023 ar yr amod fod y broses ymgeisio yn cael ei chwblhau. Gellir cynnwys dyddiadau amgen/wrth gefn fel rhan o'r cais.

- **Rhestr Aros ar gyfer Angorfeydd**
  Ar hyn o bryd mae 30 o enwau ar y rhestr aros, ond nid yw pob angorfa yn addas i bob cwch.

- **Cychod sy'n ymweld**
  Adroddwyd y dylid annog cychod i ymweld â'r harbwr gan y byddai'n creu incwm i'r Cyngor a'r Dref. Roedd hyn eisoes yn cael ei ystyried os byddai modd dod o hyd i lefydd addas a phriodol ond nid oedd llawer o le ar gyfer hyn yng Ngheinewydd oherwydd y cyfyngiadau ffisegol.

- **Parcio ar y Cei**
  Roedd nifer fach o lefydd parcio ar gael ar y cei ac yn cael eu rheoli yn unol â'r Polisi Rheoli Harbyrau. Mae hyn yn cynnwys bod y llefydd at ddefnydd cerbydau penodedig yn unig oherwydd yr ystyriaethau diogelwch a'r angen i gyfyngu ar symud cerbydau ar y cei, sy'n gallu bod yn llawn, yn enwedig ar yr adegau prysuraf.

**5. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf**

Pennwyd nos Iau, 16 Mawrth 2023 ar gyfer cyfarfodydd nesaf Defnyddwyr yr Harbyrau. Cynhelir y cyfarfodydd yn rhithiol dros Zoom/Teams, gydag un Ceinewydd am 6:15pm.